



# Rhestr wirio Symud Allan

Os ydych chi'n rhentu eiddo a rennir, rydych chi i gyd yn gyfrifol ar y cyd am ei gyflwr pan fyddwch yn symud allan. Bydd manau cyffredin bron bob amser yn gyfrifoldeb i bawb. Nid yw gwneud safiad a pheidio â glanhau'r tŷ oherwydd nad yw neb arall yn gwneud yn rheswm digonol, mi ellwch chi gyd gollu ychydig o'ch blaendal, neu'r cyfan ohono. Felly gwiriwch eich contract a'r rhestr eiddo a siaradwch â'ch landlord ynghylch yr hyn mae'n ei ddisgwyl gennych!

## Beth i wneud a phryd i'w wneud

- Gynted ag y gellwch, dechreuwch dacluso a chael gwared ar ysbwriel. Rhowch unrhyw beth nad ydych chi eisiau i'ch siop elusen leol, rhowch fwyd dros ben heb ei agor i'r banc bwyd lleol (os gadwch bethau nad ydych chi eu heisiau, efallai y bydd y landlord yn codi arnoch am ei symud).
- Cymerwch gyfrifoldeb dros eich ystafell eich hun, a gwnewch yn siŵr bod ardaloedd cyffredin yn cael eu rhannu rhwng pawb yn y tŷ, waeth pryd y byddant yn gadael yr eiddo.
- Peidiwch â'i adael tan y bore y byddwch yn symud. Efallai y byddwch wedi blino, dan straen neu hyd yn oed â phen mawr, ac ni fydd eich rhieni'n bendant eisiau ei wneud os ydynt yn eich nôl - bydd digon o gyfle iddyn nhw pan ewch chi adref!

	I'w gwneud	Wedi gwneud
<b>Cegin</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau'r cwcer, gril a'r holl atodiadau</li> <li>• Sicrhau bod yr oergell a'r rhewgell yn wag, wedi'u glanhau, eu dadrewi, eu diffodd, a'r drysau wedi'u gadael ar agor</li> <li>• Gofalwch bod y cypyrddau wedi eu gwagio a'u glanhau i gyd, a phob arwyneb, drysau cypyrddau, y llawr a ffenestri y tu mewn wedi'u glanhau</li> <li>• Sychwch bob teclyn (microdon, tegell etc.)</li> </ul>		
<b>Ystafelloedd gwely, Lofa a chynteddau cyffredin</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhowch hwfer ar bob carped (yn cynnwys y grisiau) a glanhewch unrhyw staeniau</li> <li>• Symudwch unrhyw eitemau personol a thynnwch bosteri i lawr (cofiwch dynnu'r <i>Blu-Tack</i> yn ofalus)</li> <li>• Symudwch ddodrefn i'w safle gwreiddiol</li> <li>• Sychwch ddrws y ffrynt, gwaith paent a silffoedd ffenestri, glanhewch ffenestri, a thynnwch lwch oddi ar ddodrefn</li> </ul>		
<b>Ystafell ymolchi</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Symudwch yr holl bethau ymolchi a gwagiwch bob bin</li> <li>• Glanhewch y toiled, sinc, bath a theils, gan sicrhau eich bod chi'n cael gwared ar y calch</li> <li>• Glanhewch bob arwyneb arall, yn cynnwys y llawr</li> </ul>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymerwch ddarlleniadau o fesuryddion a rhowch wybod i bob cwmni gwasanaeth a'r awdurdod lleol am y rhain, yn ogystal â dyddiad diwedd eich tenantiaeth a'ch cyfeiriad newydd</li> <li>• Cliriwch yr holl jync yr ydych wedi'i gasglu dros y flwyddyn ddiwethaf, a gwnewch yn siŵr bod yr holl ysbwriel yn y bagiau cywir ac yn cael eu rhoi allan yn gywir – ewch ag unrhyw beth dros ben i'r tip (a gwnewch yn siŵr eich yn bod yn tynnu'r holl hangyrs allan o'r wardrob)</li> <li>• Ceisiwch chwynnu a thacluso'r ardd</li> <li>• Siaradwch â'ch landlord ynghylch diffodd unrhyw wres ai peidio</li> <li>• Clowch bob ffenest a drws i'ch tŷ neu fflat, a gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd yr allweddi yn ôl y trefniant.</li> </ul>		

Gallai gadael yr **holl** lanhau i'r un olaf sy'n symud allan olygu y bydd costau glanhau yn cael eu tynnu allan o'ch blaendal. Chi biau'r dewis!